OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3232 (Cy.312)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*9 Rhagfyr 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Ionawr 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 163(3)(b) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2004.

2. Mae'r Rheoliadau yma yn gymwys i Gymru.

3. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw arolygiad cyn 1 Ionawr 2006 o ysgol a oedd ar 31 Rhagfyr 2003 wedi'i chofrestru dros dro yn unol ag adran 465(3) o Ddeddf Addysg 1996(**2**).

Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu

4. Pan fydd yr awdurdod cofrestru yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad arolygu a wnaed o dan adran 163(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002 cael ei gyhoeddi, rhaid i'r person a gynhaliodd yr arolygiad —

(a) anfon copi o'r adroddiad arolygu, ac unrhyw grynodeb o'r adroddiad hwnnw at y perchennog, a

(b) rhoi copi o'r adroddiad arolygu, ac unrhyw grynodeb o'r adroddiad hwnnw, ar y rhyngrwyd ar ei wefan.

(**1**) 2002 p.32; *gweler* adran 212(1) am y diffiniad o "regulations", yn eu rhinwedd hwy y mae'r Rheoliadau hyn a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gymwys mewn perthynas â Chymru'n unig. Mae adran 212(1) yn diffinio "prescribed" hefyd.

(**2**) 1996 p.56.